# <u>HYSBYSIAD CYHOEDDUS</u>

## GORCHYMYN SIR GAERFYRDDIN (YR C2078 LLANGYNOG)

## (GWAHARDDIAD DROS DRO AR DRAFFIG TRWODD) 2025

---

**HYSBYSIR** trwy hyn fod Cyngor Sir Caerfyrddin yn bwriadu, heb fod llai na saith (7) niwrnod o ddyddiad yr Hysbysiad hwn, gwneud Gorchymyn a fydd yn gwahardd unrhyw gerbyd rhag mynd ar hyd darn o ffordd yr C2078 yn Llangynog yn Sir Gaerfyrddin a ddangosir gan linell goch ar y cynllun amgaeedig, o'i gyffordd â ffordd yr U2131 am bellter o 1.1 cilometr i gyfeiriad y gogledd-ddwyrain.

Mae angen cau'r darn hwn o'r ffordd i sicrhau diogelwch y cyhoedd wrth i waith gael ei wneud gan neu ar ran Openreach ar geblau uwchben ac o dan y ddaear.

Lle bo'n bosibl, caniateir i gerddwyr ac i gerbydau gael mynediad i eiddo unigol drwy gydol y cyfnod y bydd y ffordd ar gau.

Bydd y Gorchymyn yn parhau mewn grym hyd nes bod y gwaith ceblau wedi ei gwblhau. Bwriedir i'r gwaith ddechrau **ddydd Mercher y 27ain o Awst 2025** a pharhau am gyfnod o un ar ddeg (11) diwrnod. Lle bo hynny'n briodol, gall gorchmynion rheoleiddio traffig ffyrdd dros dro barhau mewn grym am hyd at ddeunaw (18) mis.

<u>Y Ffordd Arall</u> ar gyfer traffig sydd am deithio tua'r gogledd-ddwyrain, o fan sydd i'r de-orllewin o'r man lle mae'r ffordd ar gau, fel y dangosir gan linell las doredig ar y cynllun amgaeedig, fydd parhau i gyfeiriad y de-ddwyrain ar hyd ffordd yr U2131 hyd at y gyffordd â ffordd yr U2124. Troi i'r chwith wrth y gyffordd a pharhau i gyfeiriad y gogledd-ddwyrain ar hyd ffordd yr U2124 hyd at y gyffordd â ffordd yr C2078. Troi i'r chwith wrth y gyffordd a pharhau i gyfeiriad y de-orllewin ar hyd ffordd yr C2078 i ddychwelyd i fan sydd i'r gogledd-ddwyrain o'r man lle mae'r ffordd ar gau.

Ac i'r gwrthwyneb ar gyfer traffig sy'n teithio tua'r de-orllewin.

**Dyddiedig y 23ain o Orffennaf 2025.**

Cyfeirnod y Ffeil: HMD/HTTR-1915

Llinell Uniongyrchol: 01267 224066

E-bost: HeMDavies@sirgar.gov.uk

WENDY WALTERS

Y Prif Weithredwr

Neuadd y Sir, Caerfyrddin